**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo, a gynhaliwyd Nos Fawrth 20fed o Fehefin 2017 am 7:00 yh, yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Meryl Green (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Avril Jones, Cemlyn Jones, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Meirwen Lloyd, Phil Roberts.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Rhys Parry,

**Aelod Cyngor Gwynedd dros Cwm y Glo:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

**Aelodau Ieuenctid:** Neb – wedi ymddiheuro

**Clerc:** Meirion Jones

**Hefyd yn bresennol:** Criw 'Falcon Force' o Ysgol Brynrefail, Llanrug (ar gyfer eitem 4 yn unig).

1. **Croeso gan y Cadeirydd**

   Estynnodd y Cadeirydd groesi i bawb i'r cyfarfod ac yn enwedig i griw Falcon Force o Ysgol Brynrefail. Cydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Meryl Green ar ei phrofedigaeth diweddar, a diolchodd i'r Cynghorydd Goronwy Hughes am ei waith yn Cadeirio'r Cyngor dros y ddwy flynedd diwethaf.

2. **Derbyn Ymddiheuriadau**

   Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod.

3. **Datgan Buddiant Personol**

   Rhain i'w datgan gan yr aelodau pan yn briodol.

4. **I ystyried cais am gymorth ariannol gan Falcon Force – Pencampwyr F1 mewn Ysgolion ac i dderbyn cyflwyniad gan yr aelodau ar eu llwyddiant a manylion y prosiect.**

   Derbyniwyd cyflwyniad gan aelodau tîm Falcon Force o Ysgol Brynrefail, Llanrug ar eu llwyddiant diweddar yng nghystadleuaeth Fformiwla 1 i ysgolion. Eglurodd y criw ar waith maent wedi gorfod ei wneud ac i'w ddysgu yn sydyn iawn ac aethpwyd ymlaen i egluro rhai o'r elfennau technegol o gar F1 ac sut buont yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth. Eglurwyd oherwydd eu bod wedi ennill y gystadleuaeth, eu bod nawr yn mynd ymlaen i gystadleuaeth F1 i Ysgolion drwy'r byd, sydd yn cael ei gynnal yn Malaysia ac fod angen i'r aelodau godi £15,000 ar gyfer y daith. Eglurwyd nad oedd Falcon Force yn rhan o Gyngor Gwynedd ac roedd yn brosiect hollol ar wahân i'r ysgol.

   **Penderfynwyd:**

**a)** Diolch i'r aelodau am gyflwyniad mor dda;

**b)** Llongyfarchwyd y criw i gyd ar eu llwyddiant
**c)** Penderfynwyd cyfrannu £500 tuag at eu costau a ddymunwyd yn dda iddynt yn y gystadleuaeth.

**5. <u>Cadarnhau Cofnodion Mis Mai</u>**

Cadarnhawyd cofnodion mis Mai yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

6. **<u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**

**Mapiau Llwybrau Cyhoeddus**

Yn dilyn cyfarfod mis Mai, adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, ei fod wedi bod mewn cysylltiad a Chyngor Gwynedd am y mapiau ac eglurodd mae'n debyg bydd y mapiau perthnasol ar gael gan Gyngor Gwynedd, drwy gysylltu a Mr Eurwyn Williams, Uwch-swyddog Tramgwydd

**<u>Penderfynwyd:</u>**

a) Derbyn yr adroddiad a diolchwyd i'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones am ei waith.

b) Y Clerc i gysylltu a Mr Eurwyn Williams i geisio cael y mapiau er ein galluogi i wneud cas.

7. **<u>Llenwi Sedd Wag ar y Cyngor</u>**

Fe benderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod fis Mai, i fynd ati i lenwi seddi gwag ar y Cyngor Cymuned. Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi datgan diddordeb (ac nad oedd yn adnabyddus i'r Cyngor), ysgrifennu pwt bach amdanynt ac egluro beth gallent ddod i'r Cyngor.

Mae angen i'r Cyngor heno benderfynu i gyfethol yr aelodau hynny sydd wedi datgan diddordeb.

Adroddwyd gan y Clerc, fod un o'r ymgeiswyr wedi tynnu yn ôl ac ddim am ei ystyried bellach ac y tri sydd yn weddill yw

Mr Clifford Williams

Clifford wedi bod ar y Cyngor ers blynyddoedd ond oherwydd wedi methu cael ei ffurflen enwebu i fewn erbyn y dyddiad cau, roedd yn rhaid iddo fynd drwy'r broses o gyfethol.

Mr Llywelyn Williams

Mr Martin Jones

Darllenodd y Clerc y nodiadau a ysgrifennwyd gan Mr Llywelyn Williams a Mr Martin Jones i'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

a) Cyfethol Mr Clifford Williams ar y Cyngor Cymuned
b) Cyfethol Mr Llywelyn Williams ar y Cyngor Cymuned
c) Cyfethol Mr Martin Jones ar y Cyngor Cymuned

Derbyniwyd enw arall oedd wedi datgan diddordeb gan aelod o'r Cyngor a gofynnwyd os buasai yn gallu ysgrifennu pwt bach amdani ei hun fel gall y Cyngor ei chyfethol yng nghyfarfod Gorffennaf.

8. **I dderbyn adroddiad ar ddigwyddiad giât Maes Chwarae Pwll Moelyn ac i ystyried dyfynbris a dderbyniwyd yn dilyn cyfarfod ar y safle.**

Adroddwyd fod y giât lydan wedi disgyn ac oherwydd natur brys y gwaith roedd angen ei wneud, cysylltwyd a Bryn Afon Engineering ac mae'r giât bellach yn ôl yn ei lle, ynghyd a'r fainc oedd yn rhydd ac sydd nawr wedi ei weldio i'r llawr.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

9. **I benodi cynrychiolydd a Fwrdd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Adroddwyd fod Nan Humphreys wedi bod yn eistedd a y bwrdd yma yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ers sawl tro bellach, ond oherwydd nad yw yn gynghorydd bellach mae angen penodi cynrychiolydd newydd i eistedd ar fwrdd llywodraethwyr.

**Penderfynwyd:**

Gohirio penodi cynrychiolydd tan cyfarfod mis Gorffennaf.

10. **Cais am barc sglefrio 'Skate Park' yn Llanrug**

Adroddwyd fod cynrychiolaeth wedi ei wneud gan griw o bobl ifanc i geisio cael parc sglefrio yn Llanrug. Yn dilyn trafodaeth ar y pwnc, y cydsyniad oedd byddai hwn yn brosiect y gallai'r aelodau ieuenctid fod yn gysylltiedig ag o.

**Penderfynwyd:**

Y Clerc a'r Cadeirydd i gyfarfod a'r aelodau ieuenctid ar ôl ei arholiadau i drafod cynllun o'r fath.

11. **I dderbyn adroddiad ar y Llwybrau cyhoeddus**

Adroddwyd gan y Cadeirydd ei fod wedi derbyn cwyn am lwybr Gelliod. Ond adroddwyd ymhellach ers derbyn y gwyn fod contractwyr llwybrau y Cyngor wedi bod yn torri'r llwybrau cyhoedus.

**Penderfynwyd:**

Derbyn yr adroddiad

12. **I dderbyn adroddiad ar y fynwent**

Adroddwyd fod un neu ddau o waith angen ei gwblhau yn y fynwent ond fod y contractwr wedi bod i ffwrdd

**Pendderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad
b) Y Clerc i atgoffa'r contractwr o'r hyn sydd angen ei wneud

13. **I dderbyn adroddiad ar ddigwyddiadau a gwaith brys sydd wedi wneud ar faes chwarae Pwll Moelyn.**

Gweler 8 uchod

14. **Maes Parcio Cwm y Glo**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones am gyflwr y maes parcio yng Nghwm y Glo ac ar hyn o bryd does neb yn hawlio ei berchnogaeth ac ei fod angen ychydig o waith trwsio arno. Adroddwyd ymhellach fod ambell i gar yn ei ddefnyddio i barcio yn rheolaidd.

**Penderfynwyd:**

Derbyn yr adroddiad a cytuno i ymweld a'r safle pan yn archwilio'r parc sglefrio.

15. **Materion Maes Parcio Llanrug**

Adroddwyd yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn mis Mai, i geisio gwybodaeth am berchnogion cofrestredig y ceir gan y 'DVLA' fod y Cyngor wedi anfon cais i'r 'DVLA' am y manylion. I fyny hyd at y cyfarfod nid oedd y wybodaeth wedi dod i law.

**Penderfynwyd:**

Derbyn y wybodaeth

16. **I ystyried cyfraniad gan y Cyngor tuag at dorri gwair Mynwent yr Eglwys.**

Adroddwyd fod y Cyngor yn y gorffennol wedi bod yn cyfrannu tuag at dorri gwair mynwent yr Eglwys, Llanrug. Adroddwyd ymhellach fod y Cyngor yn gyfrifol am dorri llecyn o'r fynwent yn unig. Yn dilyn y drafodaeth wedyn, ymddengys fod ansicrwydd ar leoliad y llecyn yma.

**Pendderfynwyd:**

Derbyn y wybodaeth a trefnu i gyfarfod yn yr Eglwys i weld yn union ble mae'r llecyn yma.

17. **I bennu dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd fod angen i'r Pwyllgor Cyllid gyfarfod i fynd drwy bolisi, ffurflen gais a canllawiau hawlio grant gan y Cyngor Cymuned ar gyfer 2017 / 2018.

**Penderfynwyd:** Y Pwyllgor cyllid i gyfarfod 27ain o Fehefin 2017 am 7:00 yn y Sefydliad Coffa.

18. **I awdurdodi'r Cadeirydd a'r Clerc arwyddo'r ffurflen archwilio yn dilyn eu dychwelyd gan yr archwiliwr mewnol, er eu galluogi i'w anfon i'r archwiliwr allanol o fewn yr amser (30.06.2017).**

Adroddwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2016 / 2017 angen bod gyda'r archwilwyr allanol (BDO) erbyn 3ydd o Orffennaf 2017. Adroddwyd ymhellach ei fod yn angenrheidiol i adroddiad yr archwiliwr mewnol gael ei roi i'r aelodau yn ei gyfarfod cyn 30 o Fehefin 2017. Yn anffodus oherwydd pwysau gwaith gan yr archwiliwr mewnol, nid oedd y Cyngor wedi derbyn y cyfrifon yn ôl gan yr archwiliwr mewnol, felly nid oedd yn bosib arwyddo'r ffurflen. Gofynnir felly i'r Cyngor awdurdodi'r Cadeirydd a'r Clerc arwyddo'r ffurflen ac anfon y wybodaeth angenrheidiol at BDO ar ôl derbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol.

**Penderfynwyd:**

Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Clerc arwyddo'r ffurflen ac anfon y wybodaeth berthnasol i BDO ar ôl derbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol.

19. **Cais gan y Clerc am gostau teithio i fynychu cyfarfod gyda Marc Drayford AC**

Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn gwahoddiad i fynd y Gaerdydd y gyfarfod Marc Drayford AC. Ffocws y cyfarfod oedd adeiladu ar gyd-weithio rhwng Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned.

**Penderfynwyd:**

Awdurdodi costau teithio'r Clerc i fynychu'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:45

Arwyddwyd:

Cadeirydd Dyddiad